YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 5. MAI, 1925. PRIS, 3c.

.. CYNHWYSIAD. . .

Y DAITH OLAF.
ODDIAR Y TWR
GALWAD Y GWANWYN.
YMSON.
ARHOLIAD YR YSGOLION SUL 1925
CYFARFODYDD Y PASC.
HUNANGOFIANT HEN AELWYD GYMREIG.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.
CONGL YR AWEN.

Llandysul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Geiriadur Beiblaidd

Y GWAITH PWYSICAF AR Y BEIBL A GYHOEDDWYD YN GYMRAEG. . .

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.

— Pris 1/6 y Rhifyn. —

I'W GAEL O—
Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul.

—AIL GASGLIAD O— EMYNAU A THONAU

. . AT WASANAETH . .

Cymanfa Gerddorol Undodaidd Ceredigion.

Pris 9c., Amlen Bapur. Gellir cael Copiau wedi eu rhwymo mewn Llian—*Cloth Binding, 3s. 6c.*

Anfoner i Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1925. [CYF. XXV. RHIF 5.

Y DAITH OLAF.

"MYNED sy raid i minnau,—trwy wendid
I'r un daith a'm tadau ;
Mae 'mlinion hwyrion oriau,
A'm nôs hir yn ymneshau."

'RWYF wedi adrodd yr englyn lawer gwaith. Ar y wyneb mae iddo dinc melus. Awgrym sydd ynddo am derfyn y daith. Gwyddom fod y terfyn i ddod yn gynnar neu yn ddiweddar i bawb. Mae yna wir ynte yn yr englyn ; ond credaf fod ynddo rywbeth hefyd nad yw yn gwbl yn un a'r peth gredaf fi. Nid bob amser mae'r "*hwyrion oriau*" yn rhai blin. I raddau mwy neu lai mae bywyd yn ol yr hyn a wnawn ni o honno. Ac eto beth am y "*nôs hir*." Beth ydyw syniad y bardd? Onid fod y nôs yn gyfystyr a'r bedd, fod y dyn yn mynd i'r bedd, i aros yno hyd ryw ddydd ym mhell, pan, yn iaith farddonol yr Ysgrythyr, y bydd adgyfodiad cyffredinol i bawb. Credaf finnau nad yw'r dyn ddim yn mynd i'r bedd o gwbl. Nid y corff yw y dyn. Y corff yn unig sydd yn mynd i'r bedd. Mae yr yspryd, yr enaid, yr hwn yw y dyn, yn dianc o'r corff ac yn mynd—yn iaith pobl Cwm Nedd—"lle mynno Duw." Nid yw y bedd ond diwedd y Llith Gyntaf. Mae yna *Ail Lith* i fod yn hanes bywyd pob dyn.

R. J. JONES.

ODDIAR Y TWR.

"YR Eglwysi'n fethiant": dyna fu'r cri, bron cyffredinol, mewn byd ac Eglwys, ychydig amser yn ol—"yr Eglwysi'n fethiant." Fe'i clywid o bwlpud a llwyfan; fe'i cyhoeddid ar ddalennau papurau o bob math; deuai o enau pregethwyr a lleygwyr—o enau'r cyntaf yn fwy beiddgar hyd yn oed nag o enau'r olaf; braidd y ceid pregeth nac anerchiad heb iddynt gael eu anharddu gan y gri ddolefus, ddigalon, farwol ei dylanwad—"yr Eglwysi'n fethiant"; a mynych y teimlwn duedd, o'u darllen, i felldithio'r griw besimistaidd.

* * *

Dros amser y pery popeth dynol. Ni chlywir agos cymaint o beth fel hyn bellach. Testun diolch yw hyn. O edrych ar yr ochr dywell i bethau'n unig, a chyhoeddi condemniad heb un agweddiad, ni ddaw un da; eithr drwg a ddaw o honno—digalondid, difaterwch, mewn aml i achos llwyr ymwrthodiad â phopeth crefyddol. Yr Eglwysi'n fethiant? O ydynt—y maent yn fethiant. Methiant yw'r ddedfryd iawn—rhan o'r ddedfryd, o leiaf—ar bopeth dynol. Ond y maent yn llwyddiant hefyd; nid y llwyddiant sy'n bosibl, mae'n wir, ond llwyddiant er hynny. A'r hyn sy'n eisiau yw, nid taflu dwfr oer arnynt, ond eu symbylu i ymdrechion mwy egniol i sicrhau llwyddiant cyflawnach.

* * *

Credaf imi gyfeirio at y mater uchod amryw droion cyn hyn—mewn nodiadau blaenorol—i'r un perwyl. Pam, ebe rhywun, y galwaf sylw ato unwaith eto? Nid etyb curo ceffyl marw un diben; na choder i sylw faterion na pherthyn iddynt bellach un diddordeb. Atebaf—y galwaf sylw ato fel math ar ragarweiniad i wrthdystiad yn erbyn tuedd o gyffelyb natur a ffynna yn ein plith ni fel enwad—y duedd i fychanu safle bresennol yr enwad Undodaidd. Undodiaeth yn fethiant; yr enwad Undodaidd yn edwino; eglwysi Undodaidd yn dihoeni ymron hyd farw; capeli Undodaidd yn cael eu cau; Undodiaid—yn weinidogion a lleygwyr—yn dirywio, o'u cymharu â'r cenhedlaethau a fu o Undodiaid. Ai ni chlywir peth fel hyn yn aml—lawer rhy aml?

* * *

Nid oes amser hir er pan fum tan orfodaeth i wrando ar rywbeth tebig. Tu ol i'r flwyddyn '60, dim ond y dymunol a welir—eglwysi Undodaidd yn flodeuog, Undodiaid yn weithgar, y mudiad Undod-

aidd yn brasgamu tua buddugoliaeth ; eithr ar ol '60, hollol wahanol yw'r stori—eglwysi a phopeth arall Undodaidd yn dirywio, Undodiaid yn ddifater, a'r mudiad Undodaidd yn syrthio fwy-fwy i'r cysgod.

* * *

Credaf bod y disgrifiad o'r sefyllfa cyn '60 lawer iawn rhy flodeuog. Credaf, hefyd, bod y disgrifiad o'r sefyllfa ar ol '60 lawer iawn rhy besimistaidd ; ie, lawer iawn rhy besimistaidd. A chymryd popeth i ystyriaeth, credaf bod eglwysi Undodaidd Ceredigion—atebed eraill tros eglwysi Undodaidd tu allan i'r cylch hwn—yn dda iawn o fyw a blodeuog ; nid agos mor fyw a blodeuog ag y gallent fod, nac agos mor fyw a blodeuog ag y dymunai pob gwir Undodwr iddynt fod, mae'n wir ; ond yn dda iawn o fyw a blodeuog er hynny. Fe ellid yn hawdd ddisgrifio'r sefyllfa mewn lliw gor-besimistaidd, a chyhoeddi yn ngwydd y byd bod Undodiaeth, yn enwad ac yn syniadau, yn dihoeni ymron hyd farw. Ond, atolwg, ai dyna'r ffordd oreu i sicrhau gwelliant? Ac y mae digon o le i welliant. Yn sicr, nid dyna'r ffordd oreu i'w sicrhau.

* * *

O ddarllen fy "nod-lyfr," daethum o hyd i nodyn parthed gwaith arbenig yr amrywiol enwadau, i'r perwyl a ganlyn : cyfyd Byddin yr Iechydwriaeth ddyn o'r ffos ; golchir ef gan y Bedyddwyr ; gwresogir ef gan y Methodistiaid ; sychir ef gan y Presbyteriaid ; rhoddir *starch* ynddo gan yr Annibynwyr ; llyfnheir ef gan yr Eglwys Esgobol. Ni ddywed awdur y sylw ddim am yr Undodiaid ; eithr beiddiaf wneud i fyny'r diffyg—*teifl yr Undodiaid ddwfr oer arno*—o leiaf, ambell i Undodwr.

* * *

Pam y flwyddyn '60 fel y llinell derfyn rhwng y ddau gyfnod—a chaniatau bod dau gyfnod? Teimla awdur y llinellau hyn ychydig ddiddordeb yn y flwyddyn honno ar gyfrif digwyddiad pwysig yn ei hanes ; ac ofna bod gan y digwyddiad hwnnw rywbeth i wneud â'r cyfnewidiad. Eithr beiddiaf ddyweyd na fu un cyfnewidiad ; a hollol ddychmygol yw'r llinell derfyn.

* * *

Nid yw llwyddiant yr enwad Undodaidd, mwy na llwyddiant y mudiad Undodaidd yn gyffredinol, agos yr hyn y dymunai pob gwir Undodwr iddo fod. Ond—nid methiant mo honno. Rhodder heibio'r taflu dwfr oer arno, a cheisier ei wresogi i frwdfrydedd llawer

mwy angherddol dros ei lwyddiant: dyna sy'n eisiau—yng Nghymru, yn Lloegr, yn yr Amerig—ymhob man.

* * *

Adeg ddiddorol iawn yn hanes ein henwad yw'r flwyddyn hon—adeg dathliad Canmlwyddiant y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor; ynghyd a dathliad Canmlwyddiant y Gymdeithas Undodaidd Americanaidd. Sefydlwyd y ddwy gymdeithas yn y flwyddyn 1825, ymron yr un dydd; a thestun syndod ydyw, er i'r ddwy gael eu sefydlu mor agos i'w gilydd, eto iddynt gael eu sefydlu'n hollol annibynnol y naill ar y llall. Gwnaed gwaith ardderchog dros ledaeniad crefydd rydd yn ystod y ganrif gan y ddwy—nid agos yr oll a ellid ei wneud, o bosibl; ond, ag ystyried prinder eu hadnoddau, a'r rhagfarnau y bu raid iddynt frwydro yn eu herbyn, gwaith amhrisiadwy werthfawr, er hynny; a dechreu pobun o honynt yr ail ganrif o'u hanes yn fyw i'r cyfleusterau a ymegyr o'u blaen ymhob cyfeiriad.

* * *

Ynglyn â'r dathliad gwelir arddangosiad o gryn fesur o frwdfrydedd dros ledaeniad ein hegwyddorion a thros lwyddiant ein hachosion. Nid y lleiaf gwerthfawr o'r arddangosiadau hyn o frwdfrydedd yw'r mudiad a elwir yn "*Harvest of Youth*," a gychwynwyd gan olygydd yr "*Inquirer*" (yr Ymofynydd Saesneg) y Parch. W. G. Tarrant; amcan yr hwn yw ennill ieuenctid ein cynnulleidfaoedd i aelodaeth o honynt. Y gwyn gyffredinol yw y collir llawer o ieuenctid ein cynnulleidfaoedd yn union ar ol y deuant i oedran addfed. Dyna gŵyn yr oll o'n heglwysi yng Ngheredigion—y collir llawer o'n pobl ieuainc naill ai oblegid difaterwch yn y dygiad i fyny, neu oblegid symud o honynt i feysydd a chymdogaethau eraill. Y mae eisiau tipyn o waed newydd, ieuanc yng ngwythiennau achosion crefyddol, fel ymhob math ar achosion, os ydynt i fyw a bod yn gryf i wneud eu gwaith yn effeithiol.

* * *

Hoffwn, pe gallwn, o'm harsyllfa, daflu golwg ymlaen dros y ganrif nesaf (1925—2025). Ond ni allaf. Eithr tra ffyddiog wyf ein bod ar ddechreu adeg ddiddorol iawn yn hanes crefydd ryddfrydig; neu, a defnyddio gair mwy dealladwy, yn hanes Undodiaeth. Achos neu fudiad gogoneddus ydyw; ac achos neu fudiad sydd i fuddugoliaethu. Chwareuwn ni ein rhan yn ffyddlon fel milwyr yn y fyddin.

Sylwedydd.

GALWAD Y GWANWYN.

GAN ANTHROPOS.

I.

Y mae dyn ar ei dro yn dod i ambell lannerch, ac yn dweud yn ddistaw wrtho'i hun—'Peth braf fuasai cael byw mewn lle fel hwn.' Ychydig mewn cymhariaeth ydyw nifer y bobl sydd yn cael dewis eu trigfannau. Y mae amgylchiadau bywyd yn eu gorfodi i aros yn y man y gallant ennill eu bara beunyddiol. O herwydd paham, ceir pobl yn y dref a freuddwydiant beunydd am y wlad, a phobl yn y wlad yn hiraethu am eu tref. Dichon mai felly y mae oreu. Rhyw ddelfryd ydyw bywyd ym mhob man. Y mae dyn yn fwy na'i amgylchedd. Ac eto y mae gan amgylchedd ryw ddylanwad cyfrin ar y meddwl. Da ydyw ei newid ar brydiau, rhag mynd yn aberth i rigolau cyfyng a chul.

II.

Sonir am orfod byw rhwng 'pedwar pared,' a pheth digon digysur ydyw hynny. Os na bydd dyn yn berchen rhyw adnoddau eithriadol, y mae y fath gaethiwed yn crebachu enaid ac ysbryd. Gwyddom trwy brofiad am ormes y parwydydd. A phan ddelo gwanwyn i dyneru'r awel, ac i rywiogi'r hin, yr ydym yn awyddus i ddianc o'u gafaelion.

'Gad i'm gloddio trwy'r parwydydd,'

ebe Pantycelyn. Yn ffodus, ni raid gwneud hynny gyda pharwydydd materol. Agorwn y drws, ac awn allan. I ble? Dim gwahaniaeth i ble; mynd ydyw'r peth cyntaf oll. 'Yn ddyn heb neges dan y ser.' Y mae *neges* yn cyfyngu ar y mwynhad. Carwn fynd fel yr afon—

'Wandering at its own sweet will.'

III.

Celf gain ydyw 'mynd am dro.' Y mae llawer o bobl yn mynd a rhywbeth i'w canlyn rhag ofn iddynt ymddangos yn segur, neu fethu bwrw'r amser yn ddedwydd. Nid oes dim i'w ddwedyd yn erbyn hynny, ond y mae ffordd fwy rhagorol. Nid ydych yn rhoddi chwareu teg i ddylanwadau allanol. Dacw ddyn yn eistedd ar sedd yn ymyl y môr, ac yn tynnu'r papyr dyddiol darluniadol o'i logell. Darllenna hwnnw yn hytrach na gadael i'w feddwl rodio'n rhydd, a rhoi mantais i'w lygaid orffwys ar brydferthwch y bore. Y mae'n dychwel heb sylwi ar ddim ond a welodd yn y papyr newydd. Dichon iddo anadlu awyr y môr, ond nid ydyw yn derbyn yr argraffiadau sydd yn dod o gymundeb a natur yn ei gweddnewidiad a'i swyn. Dyna ein hanes yn rhy fynych. Yr ydym yn mynd a'r 'parwydydd' gyda ni i bob man. A ni ein hunain sydd yn creu'r parwydydd. Y mae llawer o ysgrifennu yn y dyddiau hyn ar y 'Pedwar Pwynt' Nid yw y rheiny namyn 'pedwar pared' mewn cylch arall. Ceir pobl yn byw am oes oddi fewn i barwydydd enwad, heb feddwl am fynd tu hwnt i'r rheiny. Ac felly gyda phethau eraill.

IV.

Ein braint ydyw lledu'r gorwelion. Y mae bore o wanwyn yn greadigaeth newydd. Daw Natur yn llyfr datguddiad, ac y mae hwnnw yn newydd bob dydd. Nid rhyw 'gyfeithad diwygiedig' mo honno, ond argraffiad gwreiddiol. Gresyn fod cyn lleied o graffu arno! Ni raid darllen llawer ar y tro—dim ond rhyw un ddalen. Ond y mae honno wedi ei gosod mewn 'preint bras.' Nid oes

angen spectol! Gawn ni syllu ennyd ar y ddalen, a cheisio sillebu yr iaith. Y mae yn gynghanedd berffaith. Yr ydym yn eistedd ar fryncyn gwyrddlas uwch ben y môr. Gwelwn Ynys Môn dan fedydd yr heulwen—dim eisiau 'goleu' Llanddwyn. Gwelwn y tywod melyn ar draethau Malldraeth, a'r cychod pysgota yn lledu eu hwyliau o flaen yr awel.

Ni fu'r môr erioed yn dawelach na heddyw. Y mae ei lyfnder fel y grisial, a'i lesni yn 'ddigompar' ys dywed Dr. Cynddylan Jones am awen Pantycelyn. Nis gŵyr y môr am 'barwydydd' cyfyng. Y mae'n ddrych o'r dderfyn, ac yn gysgod o'r tragwyddol. Nid 'môr tymhestlog' ydyw heddyw, ond tawelfôr gogoneddus—môr o hedd.

V.

Ar y lan ger llaw, gwelir anneddau gwyngalchog, a choed henafol yn cael eu hadlewyrchu yn nyfnderau'r dŵr. Ac, o'r braidd, nad ydyw'r adlewyrchiad yn gogoneddu'r gwreiddiol. Dyna arfer natur. Dichon fod y sawl sydd yn byw yn y tai acw ar fin y môr yn meddwl mai lled gyffredin ydynt, a bod eisieu yr hyn a elwir yn *spring cleaning*. Hwyrach. Nid ydym ni yn 'awdurdod' o gwbl ar bethau o'r fath. Ond carwn eu gwahodd i ben y bryncyn hwn i weld haul y bore yn tynnu llun y bwthynod gwynion yn nrych y dŵn. Mor dlws ydynt! Ond i gael y darlun rhaid i'r drych fod yn loew a thawel. Nis gall y môr aflonydd adlewyrchu dim. Ac y mae'r un peth yn bod yn hanes meddwl dyn. Y dyfroedd *tawel* sydd yn adlewyrchu yn ddyladwy. Dyna sydd yn cyfrif am brinder *profiad* ym mhob cylch. Y mae meddwl yr oes yn rhy aflonydd i dderbyn argraff delfrydau, ac nid oes nemawr *adlewyrchiad* yn bod.

VI.

Yr wyf wedi bod yn ceisio gwahaniaethu rhwng *adlewyrchiad* a *chysgod*, ond yn methu a'i ddeffinio'n foddhaol. Ond y *mae* gwahaniaeth gwirioneddol rhwng y naill a'r llall. Y mae *adlewyrchiad* yn rhywbeth mwy na *chysgod*. Dacw gysgod coeden ar y glaswellt a chysgod y bwthyn yn y dŵr. Unlliw ydyw'i gysgod ar y glaswellt—rhywbeth tywyll, ond yn cadw ffurf y goeden o'i bôn i'w brig. Ond y mae'r adlewyrchiad yn y dŵr yn cadw *gwynder* y bwthyn, a lliwiau'r awyr yn berffaith a dihalog. Da ydyw'r cysgod, ond gwell, uwch ei radd, ydyw'r adlewyrchiad. Ond y mae perygl i ni fynd i 'athronyddu' ar bwnc dyrys, yn hytrach na chraffu ar y *ddalen* sydd o'n blaen. Ar y dde, y mae hen balas a'i enw yn y Mabinogion. Candryll ydyw ei dô, ond y mae'r eiddew gwyrdd yn lledu ei freichiau dros ei furiau llydain, ac yn ceisio cuddio ei noethni. Ar y weirglodd ger llaw gwelir cannoedd o ddefaid ac ŵyn.

VII.

A dyna olygfa sydd yn cael ei hadnewyddu bob blwyddyn. Ebe priffardd Clynnog—

'Dechre 'nghân yw y Gwanwyn,
Yr adeg i eni ŵyn.'

A pha beth yng nghread yr Ior sydd yn dlysach nag oen gwanwyn? Y mae asbri a nwyf bywyd wedi eu crynhoi yn ei gampau chwareu. Dacw rês wlanog yn ymryson rhedeg, ac yn llamru ar draws eu gilydd. Pwy fu yn eu dysgu i chware? Rhaid i greaduriaid deudroed gael athrawon i'w dysgu i ymarferiadau corfforol. Ond y mae oen bach, trwy reddf, yn medru chware yn brydferthach na holl *football teams* y deyrnas. Ac eto mor ychydig o blant dynion a wêl y ceinder a'r nwyf ar ddoldir ym myd yr ŵyn bach? O! ddalled ydym i'r gwir gampau a'r llawenydd di-wenwyn a di-frad.

VIII.

Awn yn ol trwy lwyn o goed. Gwelwn y blodeu cynar yn agor eu

llygaid, a'r blagur yn torri allan. Bu yntau yn cysgu rhwng y 'pedwar pared,' ond heddyw y mae yn eangu ei fyd, ac yn ymwthio allan i roesawu'r awelon a'r gwlith. A chan mai bore ydyw, cawn wrando cyngherdd yr adar yn yr awyr agored. Y mae'r bobl ffodus yn 'Stryt Ni' yn rhoddi y *wireless* yn eu tai, ac yn ymffrostio eu bod yn 'gwrando' ar gyngherddau uwchraddol yn Llundain. Digon tebyg, a mawr ydyw eu bri a'i braint. Ond, yn onest, nid wyf yn eiddigeddu with eu ffawd. Y mae miwsig y llwyn ar fore o wanwyn yn fwy arddechog na phopeth a gludir ar y *wireless*, er cystal ydyw hwnnw. 'Does dim eisiau *crystal*, *valves*, na *headpiece* i wrando'r 'deryn du a'r fwyalchen! Os bydd yr hin yn fwyn a nawsaidd gellwch glywed *piccolo* yr asgell fraith a'r dryw bach. *London calling!* Na, y mae yma rywbeth mwy na hynny. Nid Llundain sydd yn galw yn y llwyn, a glan y môr, ond y *cread* mawr. Dydd i ddydd a draetha; nôs i nôs a fynega. Eu llinyn a aeth trwy yr holl ddaear. Dyna'r *aerial* sydd at wasanaeth pob dyn.

YMSON.

Ni cheir cymeriadau gwreiddiol heddyw na syniadau 'chwaith. Annodd yw gwybod beth yw syniadau neb ar unrhyw bwnc pwysig. Nid wyf yn sicr fod syniadau pendant gan y mwyafrif, o'r hyn leiaf y maent yn rhy lwfr i'w mynegu os yn eu meddu. Gwn mor annodd hefyd yw ceisio gan y galon ddatguddio'i chyfrinach, ond nid difudd i neb yw holi'i hunan, a myn'd i'r *seiat*, gan adrodd ei brofiad yng nghlyw'r byd.

Droion yn ddiweddar bum mewn ystafell â rhywun ar ei wely angau ynddi. Nid o ddewis yr af bob tro. Nid hoff gan fy nghalon gwmni angau, oherwydd fod braw a phryder ac ofn fy nheidiau'n mynnu beichio fy ysbryd. O'm rhan fy hun credaf heddyw o leiaf y medrwn chwerthin yn ei wyneb. Nid mewn cellwair y dywedaf hyn, ond oherwydd credu ohonof nad yw angau cyn ddued ag y'i lliwir. Gwn am yr hiraeth o ganu'n iach. Gwn ragor. Gwn am wirionedd geiriau'r Deon Inge o golli Paula, "Bereavement is the deepest initiation into the mysteries of human life and the sharpest challenge to their trust in God." Gwn am y nôs a'r graith.

* * * * *

Dywedir mai Angau yw testun hynaf Llên, a "Llyfr y Meirw" yw teitl y llyfr hynaf sydd ar gael. Darllenais Weledigaeth Angau a bu'm yn ymgomio â llawer ag angau'n oedi gerllaw.

Diddorol yw syniad pob cenedl a dyn am angau, ac yn y syniad hwn y gwelir crefydd yn ei lliwiau priod. Er ein bod yn medru esbonio popeth bron, ar wahân i gais yr Ysbrydegwyr, "fel yr oedd yn y dechreu felly y mae" ydyw gydag angau. Y mae gormod o faterioliaeth oer ac "olion" crefydd ddu'r Canoloesoedd a llawer syniad barbaraidd wedi llwytho'n syniadau nes peri braw a dychryn i bob calon onest. Y mae'n ddrwg gennyf glwyfo teimlad neb, ond ni fedraf beidio gwenu o glywed sôn am "Dduw yn galw adref." Y mae gormod o'r Recruiting Officer yn galw pob un pan ddaw i'r oed priod yn y syniad i mi. Hyd y gwelaf i nid yw angau o bwys i Dduw nac i ninnau 'chwaith ond i ni edrych arno o'r safbwynt iawn. Y mae'r esboniad cyffredin ar ddamwain angeuol neu angeu disyfyd yn peri imi ddwrdio'n arw y ddiwinyddiaeth a'u hesbonia neu wadu Duw. Nid oes dim arall am dani. Gwell gennyf wadu Duw na chredu popeth ac unpeth am dano. Ni allaf mo'r help.

Beth amser yn ol ymwelwn a chlaf heb obaith cael ei hadfer. Ni chrynai'n sŵn y dòn. Nid brenin y dychryniadau mo angeu iddi, a chysurai'i hun â syniad tebig i eiddo'r bardd am amcan dioddef :—

"Cefnist yma lawer damwain,
Megis rhybudd cerydd cywrain ;
Mae'r saer celfydd ym mhob cilfach
Am dy docio i'th wneyd yn decach."

Nid felly'i chwaer. Yr oedd braw a dychryn yn ei pharlysu. Yr oedd ofn arni fyn'd i gysgu'r nos rhag ofn iddi ddihuno ym mhresenoldeb Duw. Ni wn, ond gellid meddwl nad yw Duw'n agos atom yn y corff, a beth mewn difrif yw mur o gnawd i Dduw. B'le mae Duw? Ai anwiredd yw profiad goreu dynoliaeth :—

"Fod Duw yn llon'd pob lle,
Presennol ym mhob man."

Gwell yw Nirvana na chred felly. Ni wn i pwy a ddaeth a'r prudd-der llethol ac afiach hwn i galon y Cymro. Nid yw'r Cymro felly wrth Natur. Gwn fod cysgod y mynyddoedd arno, ond rhyw ddiwrnod o Ebrill yw bywyd y Cymro i mi,—gwenu drwy'r gawod. Ni cheir mohono cyn y ddeunawfed ganrif hyd y medraf i weld.

Beth bynnag am hyn, iechyd i'm calon oedd troi o'r ystafell honno i ystafell arall, a chredaf na theimlais erioed dan unrhyw bregeth fel y teimlais y dydd hwn. Cofiaf am rywun yn awgrymu y dylasai dyn bregethu fel "a dying man to dying men," pregethu fel pe buasem yn gwybod fod ein hawr olaf gerllaw, ac awr olaf y gwrandawyr hefyd. Felly y teimlwn innau o wrando neges olaf hen gyfaill. Buom dros lawer peth, a theimlwn rywsut fod goleu dieithr yn torri ar lawer pwnc Rhoddai'i syniadau ar grefydd a bywyd imi, a minnau'n gwrando fel ar lais o du hwnt i'r llen. Un peth oedd sicr. Nid oedd ffug na rhagrith yma. Yr oedd angau wedi bod yn yr ystafell yn rhwygo'r llen, a chyn pen wyth awr a deugain wedi i mi fyned daeth eilwaith ac ni thariodd. Diddorol, er ei thristed, rywsut, yw ymgom a gwr y gwyddoch nad oes ganddo esgus dros ddarnguddio'r gwir ac yntau'n gwybod fod ei oriau wedi'u rhifo. Y mae'n rhyw galondid gwybod fod gafael crefydd ar fywyd llawer un yn sicrach nag y tybiwn ni, a cherdlai llawer un ohonom yn gywirach pe buasai yn gwybod am y loes a bair ein llithro ni i lawer calon bur. Nid wyf yn bradychu'r un gyfrinach na chyffes gwely angau. Ni ŵyr neb, ond odid, ond myfi enw'r ymadawedig. Nid yw enwau a phersonau'n cyfrif gennyf, ond yr egwyddor dan y weithred, ac adroddaf un digwyddiad a fu dan sylw er dangos fel y brathwyd calon onest, ac er parch i'm cyfaill ni liwiaf ddim, a gall pob un fod yn sicr yn ei feddwl ei hun fy mod yn croniclo geiriau un a ŵyr fy mod yn eu hadrodd fel y'u clywais ganddo. Ni ddieithraf ond digon i ladd cywreinrwydd dall a gorfodi sylw at yr egwyddor.

Sôn yr ydoedd am etholiad ynglyn a chrefydd er dewis y goreu heb gyfrif dim ond y dyn ei hunan. Yr oedd yr amcan yn dda, ond yr oedd amgylchiadau'n drech nag amcan. Rhaid i Eglwys Dduw, ellid tybio, addoli'r llo aur neu ryw ddelw. Anghofiwyd fod Duw'n cyfrif pleidleisiau. Anghofiwyd fod cyfiawnder yn mynnu'i le ar draul diorseddu rhyw *din-god*. Anghofiwyd nad y *trappings* sydd yn cyfrif gyda Duw ond "dynoliaeth" y galon.

Y mae'i eiriau'n swnio yn fy nghlust wrth ysgrifennu, "A gredechi y gwneid peth felna yn enw crefydd?" ac yr oedd y geiriau'n wlybion gan ddagrau calon wedi'i chlwyfo i'r byw. Nid atebais Ni fedrwn ateb. Teimlais fy nhu fewn yn rhoddi tro, a diolchwn y medr dyn *feddwl* llawer mwy nag a draetha.

Lawer gwaith er hynny bum yn meddwl am ei eiriau ac am y digwyddiad. Gŵyr ef y *result* er's llawer dydd bellach fel y cyfrifwyd y *votes* gyda Duw. Nid wyf yn sicr nad hoffwn innau wybod ambell

result ond nid ynt o fawr pwys bellach. Cofiaf am lawer un mewn angladd yn meddwl mwy am wybod yr "ewyllys" nag am gydymdeimlo, ond wrth syllu'n wyneb angau dro ar ol tro y daw un peth yn eglurach beunydd, mai nid yr eiddo sydd yn yr ewyllys sydd yn eich help'u farw, ond yr eiddo sydd wedi'i anfon o'ch blaen fel rhyw *luggage-in-advance* neu a fedrwch gym'ryd gyda chwi dros afon angau. Y mae'n werth aros ambell awr ar y sticil gydag angau er gwel'd nad yw amser yn cyfrif, na chyfoeth, na swydd, na safle, na llinach, ond dysg ni nad oes ganddo awdurdod ar galon bur a gweithred o gariad, ar gymeriad gonest a chydwybod ddi-rwystr. Nid yw namyn gwas bach i agor y drws i'r un sydd a rhai'n ganddo er ei ollwng i mewn o'r bywyd helaeth i bresenoldeb agosach Duw, a hwnnw'n gofyn, o wel'd y pryder a'r braw a'r ofn yng nghalon rhywun,—

"O angau, ble mae'th golyn di?"

ARHOLIAD YR YSGOLION SUL, 1925.

Cynhaliwyd yr Arholiad nawn Sadwrn, Mawrth 28ain. Yr Arholwr yn Safonau II.—IV. oedd y Parch. H. H. C. Jones, Caerdydd. Nifer yr ymgeiswyr: Safon I. (plant dan 8), 61; Safon II. (plant o 8 i 10), 28; Safon III. (plant o 10 i 14), 34; Safon IV. (dros 14), 2. Cyfanrif, 121.

SAFON I.

ALLTYPLACA.—Elizabeth Mary Dilys Rees: Eunice Jane Letitia Evans; Hannah Violet Richards; Cyril Rees Price; John Hywel Davies; Nancy Mary Evans; Albert Hefin Price.

BRONDEIFI.—Dilys Davies; Mary Davies; Phyllis James; S. A. Evans.

CAPELYBRYN.—Hannah Glenis Davies; Hannah Tegwen Davies; Margaret Vina Davies; David Jenkins; Margaret Mary Jones; Gwendoline Sarah Thomas.

CAPELYFADFA.—Hannah Jones; Gwyneth Evans; Bertie Lewis; Jenkin Garfield Brown.

CAPELYGROES.—Hannah Margaretta Lewis; Margaret Mary Davies; Hannah Elizabeth Morgans; Gwenllian Thomas; Vincent Evans; Idwal Jones.

CRIBYN.—Aeron Davies; David Davies; Mary Evans; Tom Evans; Peggie Jones; Devro Rees.

LLWYNRHYDOWEN.—Cairo Jenkins; Evan Tom Davies; Jack Evans; Jenkin Jones; Tommy Dudley; Kate Jones; Sally Lewis.

PANTYDEFAID.—Sarah Anne Evans; Bet Evans; Bronwen Thomas; Sarah Mary Thomas; Bessie Evans; Daniel Lewis Thomas; Willie Evans.

SYCHBANT.—Ray Lloyd; Sally Lloyd; Greta Lloyd.

RHYDYGWIN.—Nellie Lloyd; Bessie Lloyd; Betty C. Evans; Eiris M. Evans; Mary Davies; Mary Aerona Davies; Joshua Davies; Thomas Jonathan Davies; Evan David Davies; David Davies; Thomas Davies.

SAFON II.

DOSBARTH I. *(gydag anrhydedd).*—Lewis Herbert, Cribyn; Hannah Evans, Llwyn; Betty Williams, Llwyn; Ajah Evans, Graig; Eilir Evans, Capelygroes (y ddau yn gydradd).

DOSBARTH I.—Frank Sturdy, Graig; Mary Hannah Dudley, Llwyn; William James, Graig; Jessie Evans, Graig; Gwyneth Mary Williams, Llwyn.

DOSBARTH II.—Mally Evans, Llwyn; Daff Davies, Llwyn; Alfred Brown, Capelyfadfa; Meredith Thomas, Capelygroes; Hetty Evans, Capelyfadfa; Daniel Howard Davies, Capelybryn; Molly Jenkins, Capelybryn; Gwladys Pugh, Capelybryn.

DOSBARTH III.—John Elias Jones, Capelycwm; Owen Lloyd Jones, Capelygroes; Bessie Jane Davies, Alltyplaca; David Thomas Davies, Alltyplaca; Bertie Rees, Alltyplaca; Mary Davies, Graig; Daniel Verdun Davies, Alltyplaca; John Elwyn Evans, Alltyplaca; David Jones, Alltyplaca; Jack Evans, Graig.

SAFON III.

DOSBARTH I. (*gydag anrhydedd*).—*Mary Margaretta Jones, Graig; *Mary Jones, Capelyfadfa; Nancy Thomas, Graig.

DOSBARTH I.—Willie Pugh, Capelybryn; Hannah Jenkins, Capelybryn; Sarah Anne Jones, Graig (y tri yn gydradd); Evan L. Pugh, Capelybryn; Anne Jones, Llwyn.

DOSBARTH II.—Sarah Anne Morgans, Capelybryn; Evan Gwynfor Rees, Capelycwm; Edwin Brown, Capelyfadfa; Evan Tom Evans, Capelycwm; Bronwen Williams, Cribyn; Sallie Davies, Cribyn; Joshua Howells, Cribyn; Hannah Evans, Cribyn; Rhys J. Williams, Cribyn; Evan Llewelyn Rees, Cribyn; Clifford Rees, Cribyn (y pump yn gydradd); Nancy Davies, Capelybryn; Willie Brown, Capelyfadfa; Cyril Davies, Capelybryn; Mary Ann Davies, Alltyplaca.

DOSBARTH III.—Megan James, Llwyn; Rachel E. Griffiths, Alltyplaca (y ddwy yn gydradd); Daniel James, Llwyn; Ieuan Jones, Capelygroes; Howell Thomas, Capelygroes; Elizabeth Davies, Alltyplaca; Essie Price, Alltyplaca; Tom Jones, Alltyplaca; Griffith Jones, Capelygroes; David James Jones, Capelycwm; Evan John Evans, Llwyn.

*Ar gyfrif annealltwriaeth parthed yr oedran, pasiwyd yng Nghyrddau Cwm Sychbant i roddi *medal* i'r ddwy flaenaf.

SAFON IV.

DOSBARTH I. (*gydag anrhydedd*).—Mary Davies, Graig.

DOSBARTH I.—Jane Olwen Jones, Graig.

SYLWADAU'R ARHOLWR "Yr oedd papurau'r Dosbarth cyntaf ymhob Safon yn well na dim a welaed yn yr arholiadau blaenorol; yr oedd yr oll o'r papurau yn nosbarth anrhydedd yn rhyfeddol dda. Papur ardderchog oedd eiddo Mary Davies yn Safon IV. Neilltuol dda ydyw eiddo Jane Olwen Jones. Papurau rhagorol yw'r tri cyntaf yn Safon III.—y cyntaf dri marc o flaen yr ail, a'r ail ddau o flaen y trydydd. Papur rhagorol oedd eiddo Lewis Herbert yn Safon II.; felly hefyd y gweddill yn Nosbarth Anrhydedd. Papurau rhagorol ydyw eiddo Mary Davies yn Safon IV. a Mary Margretta Jones yn Safon III., ynghyd â'r oll o'r papurau yn Nosbarth I. ymhobun o'r Safonau; ac y mae'r gweddill o'r papurau o safon uchel. Pleserus iawn i mi fu'r gorchwyl o edrych dros y papurau; a llongyfarchaf Ysgolion Sul Ceredigion ar ansawdd uchel yr addysg a gyfrennir ynddynt."

D. EVANS, *Ysg.*

CYFARFODYDD Y PASC.

Cynhaliwyd y cyfarfodydd uchod yng Nghapel y Cwm, dyddiau Iau a Gwener, Ebrill 16 a 17. Yng nghanol tywydd garw cafwyd hin ddymunol, ac yr oedd y cynulliadau yn llenwi y capel nawn a hwyr Gwener. Nos Iau, dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. Dr. W. Griffiths, Aberystwyth, a phregethwyd gan y Parchn. E. R. Dennis, Aberdar, ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.

Boreu Gwener, cynhaliwyd Cynhadledd, pryd y bu amryw o faterion o dan ystyriaeth. Cyflawnwyd y gwasanaeth arweiniol gan y Parch. D. Conwil Evans, Rhydygwin, a darllenwyd papyr gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr, ar 'Benod o Hanes.' Hanes yr enwad Undodaidd yn ei gyfnod bore oedd ganddo, ac yr oedd yr hanes yn un diddorol iawn.

Yn nghyfarfod y prydnawn cyflawnwyd y rhan ddefosiynol gan y Parch. D. Evans, Cribyn, a phregethwyd gan y Parchn. T. A. Thomas, Llandyssul, a Dr. W. Griffiths, Aberystwyth. Siaradwyd hefyd yn y cyfarfod hwn gan foneddwr o Manchester, o'r enw Mr. Tayler. Yr oedd ei araeth yn llawn o frwdfrydedd dros y ffydd Undodaidd, a da oedd deall fod dyn sydd yn dwyn masnach fawr yn mlaen yn cymeryd cymaint o ddiddordeb yn ein hachos, ac yn llafurio cymaint er ei hyrwyddo.

Yn yr hwyr, dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. E. O. Jenkins, a phregethwyd gan y Parchn T. O. Williams ac E. R. Dennis. Yr oedd yr Hybarch. R. C. Jones, Llanbedr, yn ein plith, ac yn ymddangos mor fywiog ag erioed. Methodd y Parch. D. G. Rees, Trebanos, a bod yn bresenol.

Teimlem fod cymaint o rym yn perthyn i'r oll o'r gwasanaethau fel ag i beri fod y gwirioneddau a draddodid yn cael argraff ar feddyliau y gwrandawyr. Os felly, mae y cyfarfodydd wedi ateb y diben o'u cynal, a gellir disgwyl y bydd daioni yn deilliaw o honynt. Arweiniwyd y canu gan Mr. David Richards, Y Siop. Gwnaeth pobl y Cwm yr oll a allent i groesawu yr ymwelwyr.

PWYLLGOR Y PASC.

Cynhaliwyd y Pwyllgor hwn yng Nghapel y Cwm, bore Gwener, Ebrill 17. Y llywydd, y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr, yn y gadair. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion Pwyllgor yr Hydref. Darllenwyd copi o ewyllys y diweddar Barch. William Rees, Rhydygwin, parthed Llainffynon, a phenodwyd y Llywydd, y Parch. D. Conwil Evans, a'r Ysgrifennydd yn Bwyllgor i alw'n nghyd yr Ymddiriedolwyr, ac i gymeryd y cwrs angenrheidiol i sicrhau perchenogaeth o'r eiddo yn unol â'r ewyllys. Pasiwyd fod yr ysgrifennydd i alw ynghyd y Pwyllgor o bump a benodwyd ym mhwyllgor Caeronen i ystyried sefyllfa arianol YN YMOFYNYDD. Penodwyd yr Ysgrifennydd i dalu ymweliad ac i bregethu yn Rhydyparc yr haf hwn, a dewiswyd y Parch. D. Evans a Mrs. Evans, Cwmiago, i gynrychioli y Gymdeithas yng nghyfarfodydd blynyddol y G. U. F. a Thramor yn Essex Hall. Trefnwyd fod y Cyfarfodydd Blynyddol i'w cynnal yn Mwlchyfadfa.

Pasiwyd ein bod yn cymeradwyo'n gynes y *Contributory Insurance Scheme* i weinidogion fel ag y ceisir ei threfnu gan yr awdurdodau ar hyn

o bryd. Pasiwyd ein bod yn danfon llongyfarchiadau gwresog a dymuniadau goreu'r gymdeithas i'r G. U. F. a Thramor ar ddathliad ei chanmlwyddiant yr hyn a gymer le yr haf hwn. Pasiwyd hefyd ein bod, yn unol a chais y gymdeithas uchod, yn cynal cwrdd arbenig yn Nghapel y Bryn, Cwrtnewydd, dydd Mawrth, Mai 26, am 6 o'r gloch i ddathlu y canmlwyddiant, a phenodwyd Mr. D. R. Davies (Cledlyn); a'r Parch. E. O. Jenkins, i siarad ar hanes a gwaith y gymdeithas.

HUNANGOFIANT HEN AELWYD GYMREIG.

Hen aelwyd Gymreig ydwyf, a safaf yn yr unfan er ys mwy na chanrif. Rhan o lawr cegin ffermdy Llwyn Onn wyf, ac arnaf, fyrdd o weithiau, y llosgodd y tanllwyth a fu'n sirioli teulu lluosog a dedwydd gynt. Ar un ochr i mi, y mae'r sciw fawr, gydag un llai ei maint yr ochr arall. Gerllaw honno y saif y coffor halen, a bydd yr estyll onnen y gwneir hwnnw ohonynt yn cael eu golchi a'u scrwbio yn aml, nes bod cyn wynned â'r eira.

Uwch fy mhen y mae simdde lwfer fawr, a thrwyddi yn nuwch y nôs y bydd lliaws o ser yn winclo arnaf. Er mor eang yw ei chorn, nid hoff gan y mwg fynd trwyddo, a chlywais wraig y tŷ yn tystio fod yn well ganddo fynd allan trwy dwll y clo

Sylwaf mai culhâu er's blynyddoedd y mae'r corn, canys ynddo y bydd fy meistr yn cadw ei ddryll, a'i lawlif, a'i drywel, ac yno hefyd y ceidw fy meistres ystorfeydd o sâts, teim, safri a wermod lwyd. Druan o'r hen gorn! cofiaf mor felyn a phert oedd yr helyg yn ei blethiad gynt, ac mor wynn oedd y bŷm grafel cadarn y gorffwysai arno: cyn ddued a'r frân ydyw yntau heddyw, a'r huddigl a'r tropas ymron a'i dagu.

Pridd a chalch ydyw llawr y gegin yr wyf yn rhan ohono, ond gwneir fi i fyny o garreg fawr, rhyw bum troedfedd wrth dair. Credaf fod sail i'r traddodiad mai carreg fedd a fu hon unwaith, oherwydd y mae yna enw ac ysgrifen yn gerfiedig ar ei hwyneb isaf, ond nid wyf yn mynd i fradychu ei chyfrinach.

Gallaf ymffrostio fy mod yn gynnes mewn mwy nag un ystyr, oherwydd bu yma ddwy genhedlaeth o'r un teulu yn byw yn hapus a chariadus ar fy mron. Pan oeddwn eto ym more cyntaf fy oes fel aelwyd, clywais fy meistres yn dweyd wrth Shams y Saer am wneud crud newydd; ac yn y dodrefnyn parchus hwnnw y siglwyd ar fy mynwes bump o blant yn y deng mlynedd dilynol. Er mwyn gwneud lle arnaf i'r crud, bu orfod ar y coffor halen gilio i'r gegin fach.

Dyn tawel a chrefyddol oedd fy meistr, a chlywais ef ganwaith yn darllain ei Feibl arnaf, ac yn gweddio hwyr a bore. Clywais lawer o bobl dlodion yn dweyd yn dda amdano, ac yr oedd pawb yn ei ganmol am y mesur hir a ro'i i'w tir tato. Menyw neis oedd meistres hefyd, ond y mae yn rhaid dweyd na chariai hi ei chrefydd i bob man, fel meistr. Clywais hi weithiau yn bradychu'r gwir, wrth siarad mewn perthynas a'r wyau, a'r menyn. Ond mi gwelais hi hefyd, cofiwch, yn taflu blawd yn hael i gydau'r anghenus, ac yn rhannu llawer torth a chilcyn cosyn rhwng y tlodion. Bu iddi ddwyn i fyny ei phedwar mab a'i merch yn ofalus: ni chawsant fynd yn benrheffyn yn

y ffordd y mynent, a gwnaeth fy nisgyblaeth hwynt yn aelodau gwasanaethgar a pharchus mewn cymdeithas.

Priododd y pedwar bachgen, ac ni wn i ddim o hanes eu carwriaeth hwy; ond mi allwn adrodd llawer o helynt caru Nansi, — gwelais gusanu, a chlywais eiriau mêl. Gwyddwn am y dydd a'r man yr oedd Nansi i'w phriodi, cyn gynted â hithau, oblegid yr oeddwn megis tyst, wedi clywed y cwbl.

Fel yr oedd amser yn cerdded yn ei flaen, gwelais farw fy hen feistres, a chofiaf ei hangladd a'm meistr a'r teulu i gyd mewn galar ar ei hol. Ar ol hynny, gwelais yr hen ŵr yn eistedd yn y gornel am flynyddoedd, ac yn magu yr ŵyr. Clywais ef yn dywedyd geiriau profiad a doethineb i'r ŵyr hwnnw, ac yn ei gynghori yn ddwys. Wedi marw o'r hen ŵr, collais y bachgen am beth amser, ond daeth yn ol ataf ymhen ysbaid â chanddo gymhares, a honno, meddai ef, yr un debycaf byth a allai gael i'w fam a'i famgû.

Ond diuan ohono, rhaid fod cenn ar ei feddwl a'i lygaid, oherwydd merch falch a ffroenuchel a ddygodd ef i Lwyn Onn, a theimlais fy hunan yn oeri o tani. Clywais hen bobl yn dweyd eu bod yn teimlo yn llai gwresog ar ol iddynt weld llawer o flynyddoedd, a thyna oedd fy mhrofiad innau yn awr. Clywais y wraig newydd yn dweyd fy mod yn edrych yn foel ac yn oeraidd, fod yr hen sciw yn rhy shabi, a'r simdde lwfer owt-o-dêt. Clywais hi yn ein condemnio gyda'i gilydd, a'r hen fŷm grafel yn gweiddi arnom, 'Dowch allan gyda mi!' Ac felly y bu.

Cefais fy erlid yn ddigon diseremoni o'r gegin oreu gan y feistres newydd, a deallaf mai ystafell oer a di-dân yw honno i fod mwy—rhyw ystafell adduno, neu ail barlwr.

With edrych yn ol, gwelaf nad anfuddiol a fu fy oes. Siglais grud a disgyblais ddwy genhedlaeth o blant glân a gonest, a pha beth a all unrhyw aelwyd newydd wneud yn well?

MURMUR LLETHI.

MARWGOFION.

CHWEFROR 24, bu farw William Williams, Postgwyn, Treherbert, Llanbedr, wedi cystudd caled. Nid oedd o gyfansoddiad cryf, a theimlid ei fod er's tro bellach yn colli tir, ond ni freuddwydiodd neb yr adeg honno fod y diwedd mor agos; ond yn ystod y misoedd diweddaf doe dolur ar ol dolur gan ei wanychu, ac ehedodd ei ysbryd ymaith yn dawel ar y dydd uchod. Saer maen ydoedd wrth ei alwedigaeth, a chrefftwr didwyll. Yr oedd yn hannu o deulu a fu yn frwd gyda'r Achos ym Mrondeifi o'r dechreu. Yr oedd ei dad yn un o ddiaconiaid cyntaf yr eglwys, a bu'r diweddar John Davies, y Lleinau, yn ysgrifennydd yr Eglwys am flynyddoedd. Bu yntau'i hun yn swyddog yma, a bu yn selog ar hyd y blynyddoedd. Yr oedd o feddwl effro ac o gymeriad pur. Claddwyd y dydd Gwener dilynol ym mynwent Eglwys Brondeifi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog, y Parch. T. O. Williams, M.A. Prynhawn Sul, Ebrill 8, traddodwyd ei bregeth goffa yn Brondeifi—y Gweinidog yn gwasanaethu. Gadawodd weddw, dwy ferch, a brawd (y Parch. D. D. Williams, o Iwerddon), ynghyd a llu o berthynasau i wylo mewn hiraeth ar ei ol.

EBRILL 14, yn 76 mlwydd oed, Mrs. Elizabeth Williams, priod Mr. W. J. Williams, Llythyrdy, Drefach, Llanwenog. Ni fu ei chystudd ond am ychydig ddyddiau, ac er ei bod wedi cyrhaedd oedran teg, yr oedd ei symudiad yn annisgwyliadwy iawn. Yr oedd ei bywyd yn un ag y perthynai iddo amryw o nodweddion da. Yr oedd yn un o'r gwragedd hynny ag y sonia y Gwr Doeth am danynt: "Hi a feddwl am faes, ac a'i pryn ef; â gwaith ei dwylaw hi a blana winllan." Yr oedd yn noddedig am ei hynawsedd a'i charedigrwydd. Gan ei bod mewn masnach deuai pobl i gysylltiad mynych â hi, a chafodd pawb hi yn serchog a charedig. Yr oedd yn aelod selog yn Eglwys Llanwenog. Claddwyd ym mynwent Eglwys Llanwenog. Gwasanaethwyd gan y Canon D. A. Jenkins, Llanybyther; y Parchn. J. Jones, Glasfryn, a D. Thomas, curad; a chymerwyd rhan yn y ty gan y Parch. L. Williams, Capelybryn, ac wrth y drws gan y Parch. E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd. Gadawodd briod a pherthynasau eraill mewn galar ar ei hol.

MANION AC HANESION.

Y GYMANFA GANU.—Mae'r trefniadau ar gyfer yr Wyl Gerddorol yn Nghaerfyrddin, Mehefin yr 2il, bron wedi eu cwblhau. Gwneir darpariadau helaeth i gael ymborth yno ar gyfer pawb yn ystod y dydd mewn lleoedd digon cyfleus. Er mwyn hwylusdod i ddieithriaid, bydd "posters" yn cyhoeddi y Gymanfa yn mhob man lle bo bwyd ar werth. Cofier am y "Rehearsals" yn Capelygroes Mai 10fed, am 1.30, a Llwynrhydowen am 6, pryd bydd arweinydd y Gymanfa yn bresenol. Gobeithio y gwelir y plant yn gryno yn mhob "Rehearsal"—*T.D., Ysg.*

RHYDYGWIN.—*Eisteddfod Flynyddol y Groglith.*—Cafwyd Eisteddfod lwyddianus eleni fel arfer, cystadleuaeth dda yn mhob peth, ac o safon uchel. Ein Llywydd eleni oedd S. Davies, Ysw., C.S., Greengrove, a llywyddodd yn y ddau gyfarfod yn alluog a doeth. Y beirniaid oeddent:—Cerddoriaeth, Mrs. Cledlyn Davies a T. Davies, Ysw., Y Felin, Cwrtnewydd. Barddoniaeth, Adroddiadau, &c., Cledlyn, y Bardd Cenedlaethol. Fancy Work and Basket Making, Mrs. Cledlyn Davies a Miss Nano Davies, Dolwern, Felinfach. Tystiolaeth pawb oedd eu bod oll wedi gwneyd cyfiawnder, ac wedi rhoddi boddlonrwydd hollol i bawb. Hapus iawn hefyd ydyw gweled y ddau hen wron, Dafydd Hughes a Thomas Jones, er mewn gwth o oedran, yn parhau i ennill y gwobrwyon blaenaf o hyd.

CAPELYBRYN.—Dygwyd tymhor Dosparth Gwnio yn y lle hwn i derfyn nos Wener, Ebrill 3ydd, drwy gynal *Social*. Cafodd y plant fu yn sefyll yr Arholiad mewn Gwybodaeth Feiblaidd eu gwahodd i fod yn bresenol, a daethant oll ynghyd. Cymerodd y *Social* y ffurf o dê a chyngherdd, a chafwyd amser hapus iawn. Yn ychwanegol at wniadwaith dechreuwyd ar *canework* yn y tymhor hwn, a gwnaed cynnydd da gyda'r gwaith hwn. Mae'r dosparth wedi bod yn ffodus iawn mewn cael rhai cymwys i'w hyfforddi, sef Mrs. Cledlyn Davies, Cwrtnewydd, a Mrs. Dr. Jones, a Miss Dorothy Jones, Y Bryn, Llanybyther. Terfynwyd drwy ganu "Hen Wlad fy Nhadau."

Y GRAIG A GELLIONEN.—Yn y Graig, yn absen y Gweinidog, yr hwn a aeth i Eglwys Aberiawe i wasanaethu yn lle y bugail yno, yr hwn sydd yn glaf iawn, a gwyddom y dymuna pob calon iddo adferiad buan a llwyr—rhoddwyd i ni ddetholiad ar yr Organ, gan Mr. Isaac E. Hopkin, nos Sul, Chwefror 22, a chodwyd y gynulleidfa i blên

uchel o swyn a hud nodau a chynghanedd cerddorol.——Eto, yn y Graig, nawn Sul, Mawrth 8, yr awd drwy y seremoni o ddadorchuddio'n ffurfiol, ac agor, yr Organ newydd. Awd drwy y rhan agoriadol o'r gwasanaeth yn y modd arferol, gyda'r eithriad i wraig-aelod hynaf yr Eglwys adrodd Salm faith ddysgodd hi pan yn ferch ieuanc iawn, a hi yn awr yn 84 mlwydd oed, sef Mrs. Margaret W. Bowen, Trebanos. Rhyfedd fel y cofiwn linellau bore oes. Mynodd hi y Salm ar ei chof yn blentyn, ac wele hi'n blentyn eilwaith, yn rhoddi i ni o lafur ei gorffennol pell! Ac eto megis ddoe yr ydoedd iddi hi. Yna, symudwyd at brif orchwyl y cyfarfod, —y dadorchuddiad. Gyda'm hanwyl fam, a enwyd eisoes, daeth aelod gwrywaidd hynaf yr achos ymlaen, yn mherson Mr. Henry Morgan, ac yntau yn 86 mlwydd oed, a safasant un ar bob llaw i'r Organ, fel dau o gofgolofnau'r dyddiau gynt,—a chyd-dynasant fein-raff y llenni—a dyna'r Organ yn y golwg! Hawddamor! Croeso i ti, frenin yr offerynau! Ni chyd-dynwyd gan ddau erioed yn well na chanddynt hwy, a dyma wers i bawb, o'r teulu gartref i'r doff fawr,—cydweithrediad, hanfod pob llwydd a dedwyddwch. Yna canodd yr Hybarch Henry Morgan yr Organ, wedi ei agoryd, ac arllwyswyd o bibau yr Organ seiniau swynol "Caersalem,"—un o emau tonau'r ty. Cawsom hyfryd unawdau, lleisiau ac offerynol, a detholiad chwaethus a byw ar yr Organ gan yr organydd, Mr. Isaac E. Hopkin. Siaradwyd yn hyawdl gan Mr. John Hopkin, cadeirydd Pwyllgor yr Organ, ar y modd y deuwyd o gylch a'r gwaith o gychwyniad y mudiad, tua phum' neu chwech mlynedd yn ol, hyd yn awr, a chaed ganddo fraslun cywir o'r ymdrafodaeth. A diolchodd yntau'n gynes i bawb ffrindiau danysgrifasant i'r drysorfa; a gobeithiodd efe, fel y gwnawn ninnau oll, y bydd yr Organ yn gyfrwng i wella a melysu gwasanaeth y cysegr, ac y bydd y gynulleidfa yn well o'i wrando a'i fwynhau. Llywyddwyd gan y Parch. D. G. Rees.—Eto, yn yr un lle, nos Sul, rhoddodd Mr. Isaac E. Hopkin *selections* ar yr Organ i dyrfa fawr iawn. A barnu'n allanol, a saif barn felly ei thir yn aml, cafodd pawb o'r gwrandawyr, ac yn eu plith lu o ddieithriaid, y mwyniant, yr adloniant, a'r adeiladaeth, hyfrytaf posibl. Gwnawd casgliadau sylweddol yn y ddau gwrdd. Ymddiriedwyd llywyddiaeth y cyfarfod i ofal Mr. J. J. Williams—Nos Fercher, Ebrill 8fed, yn Neuadd Gyhoeddus Pontardawe, dan arweiniad Mr. H. H. Morgan, perfformiwyd "Oratorio" fyd-enwog Handel "Judas Macabæus," gan gôr y lle, a chynorthwywyd gan nifer o gantorion tu allan i'r Eglwys. Daeth tyrfa fawr ynghyd i wrando'r gwaith, a chredwn i bawb ganmol yr ymdrech i ddysgu llyfr o safon yr uchod. Golygodd hyny fisoedd lawer o ymarferiad cyson a didor. A bu'r arweinydd yn ddyfal hyd y diwedd yn gloewi'r gwaith. Cyfeiliwyd gan Mr. Isaac E. Hopkin, Brynderw, a chymerwyd y datganiadau a'r adroddganau gan Mrs. Richards, Llwynbedr, *Soprano*; Mrs. Guise, Waunarlwydd, *Contralto*; Mr. David Daniel, Pontardawe, *Tenor*, a Mr. Erasmus Morgan, Alltwen, *Baritone*. I Mr. Marles Williams y rhoddwyd y gofal o'r arweinyddiaeth yn y gerddorfa linynol, yr hon a rifodd tua dau-ar-hugain o chwareuwyr, ac yr oedd effaith y math hwn ar gyfeiliant, ac effeithiau'r efyddadbwrdd, yn coroni llafur y côr a'r cantorion.—Nos Iau, Ebrill 9fed, yn yr un lle, y bu'r Parch. Llew. Morgan, Pontardawe, yn traethu ar "Y Cymro—yn ei wendid a'i gryfder." Hwn ydoedd y cyfarfod olaf o gyfres tymor 1924–25, gynaliwyd dan nawdd Cymdeithas Ddiwylliadol y Graig. Ac wrth adolygu, gwelir yn amlwg fod llawer o gynydd wedi ei wneud trwy gyfrwng y cyrddau hyn; a deallir, hefyd, fod y rhagolygon am y dyfodol yn ddymunol iawn. Llwydd pellach.

LLAW-NODWYD *Petition* y Siartiaid gan dair miliwn o bobl yn 1842. Ceir tipyn o hanes ac amcan y mudiad Siartiaidd yn YR YMOFYNYDD am 1906.

YN hanes bywyd Samuel Sharpe, tudalen 94, difynnir fel hyn :—"I was sorry R. Sharpe died so rich. He had left £100,000, a very pretty sum to begin the next world with."

CAFODD y Parch. Rees Price, Penbont-ar-Ogwr, drwydded i bregethu yn Cildeudy yn 1714.

SAMUEL JONES, M.A., Brynllywarch, sefydlodd y Coleg cyntaf yn Nghymru tua'r flwyddyn 1670. Yr oedd Mr. Jones yn un o'r dwy fil a drowyd allan o'r Eglwys yn 1662.

YN 1729 y bu y ddadl fawr Arminaidd. Achoswyd y ddadl yn benaf gan bapurwyr o eiddo y Parch. Jenkin Jones, Llwynrhydowen.

UN o'r lleygwyr enwocaf yn Nghymru yn ei ddydd oedd David Jenkin Rees, Lloyd Jack, Dyffryn Aeron. Bu farw yn 1817. Ceir bywgraffiad dyddorol yn y *Monthly Repository* am y flwyddyn honno wedi ei ysgrifennu gan Dr. Charles Lloyd.

CONGL YR AWEN.

Y GWELY CYSTUDD.

(O Saesneg T. Hood).

Gwyliasom yr anadl drwy'r nos,
Mor dyner, mor isel, mor frau ;
A thòn egwan bywyd 'n ei mhynwes
Gyn waned ei llanw a'i thrai.

O ! distaw ! mor ddistaw siaradwn !
A'm symud yn araf a blin ;
Fel pe baem yn cynnyg ein nerthoedd
Er 'mestyn ei heinioes ei hun

A'n gobaith yn amheu ein hofnau,
A'n hofnau'n troi gobaith yn sỳn,
Credasom hi'n farw pan hunodd,
Ac yn huno – yn croesi y glyn.

Can's pan ddaeth y wawr wan, bruddaidd,
Dan gawod foreuol, oer, hy',
Ei hemrynt newidiodd yn dawel
Am foreu nad oedd i nyni !

Dihewyd. NANCE EVANS.

BALED GWENNO LLWYD.

Ar lan y môr yn nechreu haf,
A'i bron yn glaf dan glwy,
Meddyliai Gwen am Ddeio'r Go
Na welai mono mwy.

A'r deigryn distaw dros ei grudd
Wnai amal ddydd yn ddwys,
With synfyfyrio lawer tro
Fod Deio'r Go dan gwŷs.

Yn niwedd haf, i'w gartref gwael
Yn yswain hael a hy,
O'r India bell daeth Deio'r Go
I briodi Gwenno Gu.

Pan gerddai'n hyf y llwybr bach
Yn llawen iach ei nwyd,
Ar ysgwydd pedwar, Duw fo'i rhan,
I'r llan 'r ai Gwenno Llwyd.

W. J. GRUFFYDD.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS, LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —



Banking Facilities

The Midland Bank, the greatest organisation of its kind in the world, offers a complete banking service through 2,200 branches in Great Britain and Ireland, and the additional advantages of perfect security and finest rates.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; The London City and Midland Executor and Trustee Co. Ltd.